**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Lilian Hopkin, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Gwener, 12 Ebrill 2024 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | N Furlong |
| V A Holland | S Joy | P Lloyd |
| M W Locke | C L Philpott | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Gwasanaeth |
| Craig Davies | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Samantha Jenkins | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: Dim.

---

## 40 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 41 Cofnodion

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2024 yn gofnod cywir, yn destun cofnodi ymddiheuriadau'r Cynghorydd J P Curtice.

## 42 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.**

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**43 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am ganiatáu trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat - KM.**

Manylodd y Rheolwr Gwasanaeth ar y cefndir mewn perthynas â KM.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr Arweiniol at adran 4.41 y Polisi.

Esboniodd KM yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** gwrthod cais KM am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Rheswm dros y penderfyniad

Gofynnodd y Pwyllgor ynghylch diogelwch yr ymgeisydd ac a yw'n addas ei fod yn berchen ar drwydded, a nododd fod dwy drosedd wedi bod yn gyflym ar ôl ei gilydd.

Ni roddodd yr ymgeisydd unrhyw amgylchiadau eithriadol neu resymau cyfiawnadwy iddo beidio â glynu wrth yr arweiniad.

Mae'r Pwyllgor felly'n gwrthod rhoi trwydded.

**44 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - AMB.**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag AMB.

Esboniodd AMB, yng nghwmni JK, yr amgylchiadau mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** diddymu Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat AMB.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r Pwyllgor yn ystyried y mater hwn yn ôl ei rinweddau ei hun o ran yr anghysonder yn y broses cyflwyno cais yn unig.

Nid oedd y Pwyllgor yn derbyn rhesymeg yr ymgeisydd a chwestiynodd ei lefel o wybodaeth.

Roedd gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd i ddal trwydded.

Ni ddaeth y Pwyllgor o hyd i unrhyw amgylchiadau eithriadol neu resymau cyfiawnadwy i beidio â glynu wrth yr arweiniad.

Penderfynodd y Pwyllgor i ddiddymu trwydded yr ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.18am

**Cadeirydd**